Mae Ystadau Cymru yn parhau i ddatblygu astudiaethau achos a hyrwyddo'r arferion gorau fel rhan o'u gwaith craidd. Mae astudiaethau achos yn cael eu cynnwys yn eu newyddleni ac mae ganddynt rôl bwysig yn y gynhadledd flynyddol. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gynllun busnes presennol Ystadau Cymru, sy'n cynnwys adolygiad o'r ffordd orau o rannu astudiaethau achos ar arferion da.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Gellid gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol.

---

## Argymhelliaid 8.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol i sefydlu rhwydwaith cymheiriad trosglwyddo asedau i alluogi grwpiau cymunedol i hwyluso rhannu profiadau ac arfer gorau â'i gilydd

### Ymateb: Derby

Mae Ystadau Cymru eisoes wedi dechrau ystyried y ffordd orau o rannu arferion da. Bydd hyn yn rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn ymateb i Argymhelliaid 7.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Gellid gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol.

---

## Argymhelliaid 9.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu pecyn cymorth wedi'i gydgysylltu i gefnogi cymunedau sy'n ceisio prynu neu brydlesu tir neu asedau. Dylai'r comisiwn yr ydym wedi'i argymhell archwilio gyda rhanddeiliaid y pecyn cymorth a ddylai fod ar gael.

### Ymateb: Derby mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i grwpiau cymunedol drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, a'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol, sy'n cael ei rheoli gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar ran Llywodraeth Cymru. Mae cymorth arall hefyd ar gael o ffynonellau eraill.

Gall cylch gorchwyl y comisiwn gynnwys adolygu'r pecyn cymorth sydd ar gael.**Goblygiadau ariannol:** Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen a argymhellir.

---

## **Argymhelliaid 10.**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i ystyried opsiynau, gan gynnwys dulliau deddfwriaethol, i ddod o hyd i atebion a all rymuso cymunedau a rhoi cyfle cyfartal iddynt wrth gystadlu yn erbyn buddsoddwyr preifat i brynu asedau o ddiddordeb. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi'i argymhell.

### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Gall archwilio datrysiau cyfreithiol a fabwysiadwyd mewn mannau eraill a sut y gallent rymuso cymunedau yng Nghymru gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y comisiwn.

Bydd angen i waith y comisiwn mewn ymateb i'r argymhelliaid hwn adlewyrchu canfyddiadau gwerthusiadau annibynnol o ddeddfwriaeth a basiwyd mewn mannau eraill i sicrhau y byddai unrhyw argymhelliaid deddfwriaethol yn cyflawni ei nodau arfaethedig ac yn sicrhau gwerth am arian.

Bydd gwaith ein Bwrdd Polisi Cymunedau yn gallu cyfrannu at yr argymhelliaid hwn. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth drawslywodraethol ac mae'n cynllunio datblygu prosiectau peilot drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn nifer fach o ardaloedd awdurdod lleol. Bydd rôl a photensial asedau cymunedol wrth rymuso cymunedau yn rhan allweddol o'r gwaith hwn. Bydd adborth o'r prosiectau peilot yn cael ei rannu â'r comisiwn pan fydd wedi cael ei sefydlu.

---

**Goblygiadau Ariannol:** Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen a argymhellir.

## **Argymhelliaid 11.**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i adolygu ffrydiau ariannu sy'n cefnogi asedau cymunedol, gan gynnwys cyllid Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ac ystyried opsiynau i gynyddu argaeledd cyllid benthiaciad fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol. Gallai hyn gael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi'i argymhell. Gallai hyn gael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi'i argymhell.

### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi mewn Asedau Cymunedol drwy'r Gronfa Benthiaciadau Asedau Cymunedol, a ddarperir i ni gan WCVA, ac yn uniongyrchol drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

Gellir cynnwys adolygiad o'r ffrydiau ariannu presennol yng nghylch gorchwyl y comisiwn.

**Goblygiadau ariannol:** Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen ar argymhellir.

Byddai benthyciadau ychwanegol yn cynyddu rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod pan fyddwn yn ceisio cyfyngu ar wariant nad yw'n rhan o'r Rhaglen Lywodraethu.

---

## Argymhelliaid 12.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu Cronfa Asedau Cymunedol. Dylai'r comisiwn yr ydym wedi'i argymhell roi ystyriaeth bellach i sefydlu cronfa o'r fath.

### Ymateb: Derby

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflawni bwriad yr argymhelliaid hwn. Mae'r [Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol](#) yn darparu grantiau o hyd at £300k i helpu cymunedau i brynu, datblygu a gwella asedau cymunedol – adeiladau a mannau gwyrdd. Mae'r rhaglen hon wedi darparu grantiau cyfalaf gwerth dros £41 miliwn ar gyfer prosiectau ledled Cymru ers 2017. Mae'r Gronfa hon yn gweithio ochr yn ochr â'r [Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol](#) sy'n cael ei rheoli ar ein rhan gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sy'n darparu hyd at £300k (100%) i alluogi cymunedau i brynu asedau.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Gellir gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol

---

## Argymhelliaid 13.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gwneud y broses o ganfod perchnogaeth asedau a thir yn haws i gymunedau a sut y gall y broses helpu i rymuso grwpiau i ymgymryd ag asedau yr hoffent iddynt barhau. Dylai hyn gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer ystyried a fyddai cofrestr o asedau o fudd a chael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi'i argymhell.

### Ymateb: Derby mewn Egwyddor

Gellid cynnwys adolygiad i nodi a fyddai cofrestr o asedau yn fuddiol, neu'n effeithiol o ran cost, yng nghylch gorchwyl y comisiwn.

Mae swyddogion wedi dechrau adolygiad o'r data sydd ar gael. Mae DataMap Cymru eisoes yn cyhoeddi data ar dir dan berchnogaeth gyhoeddus yng Nghymru sydd ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim. Mae Cofrestrefra Tir y DU yn cadw data ar berchnogaeth tir o dir cofrestredig sydd hefyd ar gael i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys tua 85% o'r holl berchnogaeth. Rydym yn gwneud ymholaadau i'r potensial i ehangu'r data cyfredol sydd ar gael drwy DataMap Cymru i gynnwys tir cofrestredig a oedd dan berchnogaeth breifat. Bydd

creu data newydd, fel cofrestrau asedau, yn gofyn am adnoddau sylweddol gan lywodraeth ganolog a lleol a gall ddyblygu ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes ar berchnogaeth. Nid yw creu cofrestrau neu gronfeydd data ar dir sydd heb ei gofrestru yn gost effeithiol nac yn ymarferol.

Bydd adborth o'r gwaith hwn yn cael ei rannu gyda'r comisiwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen ar argymhellir.

Er mwyn datblygu a chynnal setiau data ychwanegol ar MapDataCymru, os ydynt ar gael, bydd angen adnoddau ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar gael.

Bydd angen adnodd ychwanegol ar ddatblygu a chynnal setiau data ychwanegol ar DataMapCymru, os yw ar gael. -

---

#### **Argymhelliad 14.**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa benodol i Gymru ar gyfer prosiectau tai cymunedol sy'n debyg i'r cronfeydd sydd ar gael yn Lloegr a'r Alban.

#### **Ymateb: Gwrthod**

Derbyniodd y Gweinidog Newid Hinsawdd argymhelliad o'r Adolygiad Annibynnol o Gyflenwad Tai Fforddiadwy (Mai 2019) i symleiddio rhaglenni ariannu ar gyfer tai fforddiadwy.

Gall grwpiau tai sy'n cael eu harwain gan y gymuned gael mynediad at gyllid Grant Tai Cymdeithasol pan fyddant yn partneru â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ac mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi bod yn awyddus i archwilio mynediad i ffrydiau ariannu eraill sy'n bodoli eisoes ar gyfer grwpiau tai sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Mae swyddogion yn gweithio gyda Cwmpas mewn cysylltiad â datblygu cynnig tai penodol a arweinir gan y gymuned gan ddefnyddio'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau.

---

#### **Argymhelliad 15.**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i ystyried opsiynau ar gyfer datblygu deddfwriaeth benodol i Gymru, wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion Cymru. Dylai'r comisiwn yr ydym wedi'i argymhell ystyried yr angen am ddeddfwriaeth i gefnogi perchnogaeth gymunedol a grymuso cymunedau yng Nghymru erbyn diwedd tymor presennol y Senedd.

#### **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Gall cylch gorchwyl y comisiwn gynnwys adolygiad o opsiynau deddfwriaethol ar gyfer Cymru. . Bydd angen i hyn ystyried gwerthusiadau annibynnol o effaith darpariaethau

cyfreithiol sy'n cael eu gweithredu mewn manau eraill, i sicrhau y byddai argymhelliaid deddfwriaethol yn cyflawni ei fwriadau ac yn sicrhau gwerth am arian.

### **Goblygiadau ariannol:**

Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen a argymhellir.

---

### **Argymhelliaid 16.**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i adolygu canllawiau cynllunio Cymru i sicrhau eu bod yn grymuso cymunedau ac yn cefnogi prosesau trosglwyddo asedau.

### **Ymateb:**

#### **Derbyn mewn egwyddor**

Mae Polisi Cynllunio Cymru o blaid egwyddorion creu lleoedd, sy'n cynnwys darparu seilwaith cymunedol. Bydd asedau cymunedol yn rhan amlwg o seilwaith cymunedol mewn rhai manau, ac mae'n briodol y dylai Polisi Cynllunio Cymru gydnabod y gall trosglwyddo asedau fod yn fuddiol i gynaliadwyedd rhai cymunedau.

Byddwn yn ceisio gwella'r canllawiau ar bolisi mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol; foddy bynnag, dylid cydnabod bod y system gynllunio yn rheoleiddio'r ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio a'i ddatblygu, ac ni ddylid gwahaniaethu rhwng ceisiadau cynllunio ar sail pwy yw'r ymgeisydd. O ganlyniad, efallai bydd enghreifftiau pan allai trosglwyddo ased i'r gymuned, at ddiben penodol, fynd yn groes i bolisiau sefydledig, ac ni fyddai unrhyw newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn ystyried cynigion o'r fath mewn modd ffafriol, pe bai'n amlwg eu bod yn groes i bolisi.

### **Goblygiadau ariannol:** Dim

John Griffiths AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

24 Tachwedd 2022

Annwyl John

Deiseb P-06-1304 Adolygu'r polisi tai dros dro mewn argyfwng sy'n effeithio ar ein cymunedau

Trafododd y Pwyllgor Deisebau'r ddeiseb uchod yn ein cyfarfod ar 21 Tachwedd, ynghyd â gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

Yn y cyfarfod, cytunodd yr aelodau i ysgrifennu at eich Pwyllgor er mwyn dod â'r ddeiseb hon i'ch sylw a chytunwyd i ystyried y ddeiseb hon eto unwaith y byddwch wedi cyhoeddi eich adroddiad i Ddigartrefedd, ac ymateb Llywodraeth Cymru wedi dod i law.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: <https://busnes.senedd.cymru/ielssueDetails.aspx?Id=40250&Opt=3>.

Os oes gennych unrhyw ymholaadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454.

Yn gywir



Jack Sargeant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 5.5

Julie James AS/MS  
Y Gweinidog Newid Hinsawdd  
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Ddeddfwriaeth, Cyflwynnder a'r Cyfansoddiad

seneddLJC@senedd.wales

25 Tachwedd 2022

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Tachwedd ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Ddeddfwriaethol (LCM) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio (y Bil).

Rwyf innau hefyd yn rhannu eich rhwystredigaeth ynghylch diffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU ar feisydd o fewn y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno. Er bod ymgysylltu wedi gwella mae'n parhau'n siom bod meysydd yn y Bil nad oes gennym lawer o fanylion yn eu cylch a bod cymalau dalfan yn parhau i fodoli. Mae hyn wedi cymhlethu nid yn unig asesiad datganoli'r darpariaethau a'u heffaith ar Gymru, ond hefyd drafodaethau dros welliannau posibl. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd rôl graffu'r Senedd yn y broses cydsyniad ddeddfwriaethol ac yn derbyn bod hyn, yn ei dro, yn cyfyngu ar allu'r pedwar pwyllgor cyfrifol i gynnal gwaith craffu ystyrlon ar yr LCM.

Rwyf wedi darparu ymateb i'ch cwestiynau yn llawn ble gallaf yn yr atodiad i'r llythyr hwn (**Atodiad 1**) a byddaf yn gosod LCM diwygiedig ar y Bil cyn gynted â phosibl.

Mae'r ymatebion i'r llythyr wedi eu seilio ar y Bil fel y'i cyflwynwyd, ac rwy'n bwriadu gosod LCM atodol i'r un effaith. Bydd hyn yn rhoi darlun clir o fy safbwyt ar y Bil. Bydd gwelliannau i'r darpariaethau o fewn y Bil yn ystod ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn cael eu gosod fel LCM ar wahân yn unol â rheolau sefydlog. Rwy'n llwyr gefnogi eich cais am ddyddiad cau diwygiedig i asesu'r darpariaethau ac yn deall y bydd Gweinidog Materion Gwledig Gogledd Cymru a'r Trefnydd yn trafod gyda'r Pwyllgor Busnes wedi i'r LCM diwygiedig gael ei osod/ar y cyfle cyntaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 64

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n copio'r llythyr hwn at y Llywydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, yn ogystal â Chadeiryddion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

## **Atodiad 1 – Ymateb i Gwestiynau a nodir gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyflawnder a'r Cyfansoddiad**

**Nodyn: Oni nodir fel arall mae cyfeiriadau at ddarpariaethau yn y Bil i'r fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.**

**1. A all y Gweinidog egluro'n llawn y gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Rhan 1 o'r Bil? Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â hyn?**

1.1 Am dros ddua ddegawd, gweithiodd Llywodraeth Cymru, yn unol â'i chyfrifoldebau datganoledig ar gyfer datblygu **economaidd** rhanbarthol, mewn partneriaeth i helpu i fynd i'r afael â heriau economaidd strwythurol hirdymor yng Nghymru a lleihau anghyfartaledd daearyddol rhwng gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE).

1.2 Er bod Llywodraeth y DU wedi methu â chyflawni ei haddewidion yn y manifesto o ddisodli cronfeydd yr UE yn llawn ac i Gymru beidio â cholli unrhyw bŵer, mae Gweinidogion Cymru yn parhau i geisio cael rôl o wneud penderfyniadau ar y cyd wrth gytuno ar y canlyniadau a sut y dylid gwario cyllid sy'n cefnogi'r agenda Ffyniant Bro – gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin (i ddisodli cronfeydd yr UE); mae hyn yn helpu i sicrhau cydlyniad polisi ac osgoi dyblygu. Mae ein Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru yn parhau i fod yn ddogfen bolisi bwysig at y diben hwnnw. Gwella cydlyniad polisi

1.3 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai Senedd Cymru basio darpariaethau cyfatebol i'r rheini sydd o fewn Rhan 1 a gosod yr un fath o rwymedigaethau ar Weinidogion Cymru i nodi sut maen nhw'n bwriadu "lleihau anghyfartaledd daearyddol" o ran cyfleoedd economaidd, cymdeithasol neu gyfleoedd eraill ledled Cymru; gyda'r un rhwymedigaethau adrodd, craffu, adolygu ayb..

1.4 Mae hyn oherwydd nad yw'r nod o "ffyniant bro" i lleihau anghyfartaledd daearyddol yn y DU yn sylweddol yn fater a gadwyd yn ôl. Tra na fyddai Gweinidogion Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â Lloegr, byddai gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i ddeddfu er mwyn sicrhau'r un canlyniad o "ffyniant bro" i Gymru.

1.5 Disgrifir yr ymgyrchoedd "ffyniant bro" yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio (y Bil), fodd bynnag, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil ei hun o ran mae'r Rheolau Sefydlog yn galw am asesiad ynghylch a oes rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) gerbron y Senedd. Mae'r ymgyrchoedd yn disgrifio canlyniadau ysbrydoledig lefel uchel sy'n gysylltiedig â meysydd penodol – addysg, iechyd, trafnidiaeth, cyflogaeth a datblygiad economaidd. ayyb. Meysydd a ystyrir o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

1.6 Mae Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Ran 1 o'r Mesur. Dywed Llywodraeth y DU nad yw Rhan 1 yn addasu cymhwysedd y Gweinidogion Cymru na chymhwysedd

deddfwriaethol y Senedd, ond nad ydynt yn mynd i'r afael ag a yw Rhan 1 yn gwneud darpariaethau 'at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd' ai peidio. Mae Llywodraeth y DU o'r farn y gall Senedd y DU ddeddfu i osod dyletswyddau ar Weinidogion Llywodraeth y DU i bennu ymgyrchoedd ar gyfer y DU gyfan.

1.7 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â swyddogion o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a bydd yn parhau â'r ymgysylltu hwn wrth i'r Bil fynd rhagddo.

**2. A yw'r Gweinidog yn gallu darparu mwy o wybodaeth ynghylch polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynnwys cymalau 1-6 a'r rhesymau sylwedol dros ei hargymhelliaid na ddylai'r Senedd roi cydsyniad i'r darpariaethau hyn?**

2.1 Byddai'r Bil hwn, pe bai'n cael ei basio fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraethau'r DU yn y dyfodol bennu ymgyrchoedd mwy hirdymor ar draws ystod eang o faterion datganoledig, a gallai'r camau i gyflawni yn erbyn yr ymgyrchoedd hyn amharu'n sylwedol ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

2.2 Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen Rhan 1 o'r Bil. Gwella llesiant pawb yng Nghymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yw cenhadaeth graidd y Llywodraeth hon, ac mae'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a basiwyd gan y Senedd yn 2015.

2.3 Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru eu Cenhadaeth Economaidd y llynedd, gan amlinellu'n glir ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau sy'n llywio'r penderfyniadau yr ydym yn eu cymryd wrth gefnogi ein heonomi yma yng Nghymru.

2.4 Ein nod yw gweithio i sicrhau bod ein gwlad yn fwy ffyniannus, tecach a gwyrddach nag erioed o'r blaen. Yn benodol, ein huchelgais yw creu'r amodau lle mae mwy o bobl, yn enwedig pobl ddifreintiedig a phobl ifanc, yn teimlo'n hyderus ynghylch cynllunio'u dyfodol yng Nghymru. Yn ychwanegol at hyn, rydym wedi amlinellu gweledigaeth o'r hyn sy'n gwneud Cymru yn lle deniadol i fw, astudio, gweithio a buddsoddi ynddo, gan gynnwys ansawdd bywyd mewn cenedl gynhwysol, agored a gwyrdd.

2.5 Mae ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn pennu'r cyfleoedd a'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu i wella bywydau pobl ledled Cymru. Rhoddwyd cydweithio cyn cystadleuaeth, gan ddangos sut y byddwn ni'n gweithredu i sicrhau tegwch i bawb a chael gwared ar anghydraddoldeb ar bob lefel o gymdeithas. Maent yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i fodel mwy penodol o ddatblygiad economaidd – datblygu cryfderau arbennig ein rhanbarthau, cefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan gyfrannu at y nodau llesiant ar gyfer Cymru.

2.6 Yng Nghymru, mae gennym drwy'r Ddeddf Llesiant, fframwaith ddeddfwriaethol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru gyfan ar gyfer cenedlaethau presennol a'r dyfodol. Cafodd y saith nod llesiant eu datblygu drwy sgwrs genedlaethol gyda phobl Cymru a'u llunio a'u cytuno gan y Senedd.

2.7 Mae'r fframwaith hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r Llywodraeth yn unig ac yn cynnwys 48 o gyrrff cyhoeddus, a byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chynggorau tref a chymuned. Mae'n cydnabod bod gan y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus gyfraniad i'w wneud at gyflawni'r nodau llesiant sy'n adlewyrchu eu pwerau a'u dyletswyddau.

2.8 Mae'r darpariaethau yng nghymalau 1-6 o'r Bil yn cynnwys rhai o'r elfennau y darperir ar eu cyfer eisoes drwy'r Ddeddf Llesiant. Mae hyn yn cynnwys adrodd blynnyddol, dangosyddion a cherrig milltir a gosod amcanion i lunio'r ddarpariaeth.

2.9 Hefyd, mae'r diffiniad o "anghyfartaledd daearyddol" yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd, ond yn sôn yn benodol am gyfleoedd neu ganlyniadau economaidd a chymdeithasol. Mae hyn yn colli'r cyfleoedd a'r canlyniadau amgylcheddol a diwylliannol sy'n sylfaen i'r Ddeddf Llesiant a'r nodau llesiant, a safbwytiau cryf y Senedd ar gyfnod y mae lles diwylliannol yn rhan hanfodol o wella Cymru.

**3. A all y Gweinidog gadarnhau pam fod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cyfeirio at gymal 96 (Pleidleisiau Stryd) sydd angen cydsyniad ym marn Llywodraeth y DU, pan nad yw'r farn hon yn cael ei hadlewyrchu yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil?**

3.1 Cafodd y cyfeiriad at gymal 96 o'r Bil oedd angen caniatâd ym marn Llywodraeth y DU ei gynnwys yn yr LCM mewn camgymeriad. Fodd bynnag, fy marn i, gan mai cymal dalfan yw'r cymal ac nad yw'n gyfyngedig i Loegr ar hyn o bryd, a'i fod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn rhagweld y bydd gwelliannau yn cael eu cyflwyno i'r Bil i gyfyngu ar ddefnyddio cymal 96 i Loegr, a dyna pam nad yw Llywodraeth y DU wedi ei nodi fel un sydd angen caniatâd. Byddwn ni'n cywiro hyn yn y memorandwm diwygiedig.

**4. A yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i geisio eglurder ynghylch pam y mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys cymal 78 fel un sy'n gofyn am gydsyniad yn y Nodiadau Esboniadol, pan mae cymal 78 yn dwyn y teitl "Power to require use of approved planning data software in England". A fwriedir i gymal 78 fod yn gymwys i Gymru neu a yw Llywodraeth y DU wedi nodi ar gam ei fod yn gymwys i Gymru?**

4.1 Nid ydym wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y pwynt penodol hwn, felly ni allaf egluro safbwyt Llywodraeth y DU ar hyn. Fel y'i cyflwynwyd, ystyriwn y defnydd o gymal 78 i fod yn berthnasol i Loegr yn unig ac felly nid oes angen caniatâd y Senedd.

**5. A yw'r Gweinidog wedi codi'r anghysondeb rhwng y Nodiadau Esboniadol, yn union cyn paragraff 470, a'r Bil yng nghymal 77 ynghylch teitl cymal 77, lle mae'r Nodiadau Esboniadol yn cyfeirio at Loegr ond nad yw'r cymal ei hun yn cyfeirio ato? A yw'r Gweinidog yn hyderus bod y cymal hwn yn gymwys i Gymru?**

5.1 Nid ydym wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y pwynt penodol hwn. Mae'n debygol o fod yn gamgymeriad gyda'r Nodiadau Esboniadol a byddwn yn codi'r mater gyda Llywodraeth y DU. Mae gan y darpariaethau data cynllunio y potensial i fod yn berthnasol i Gymru mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae hyn mewn maes cyfyngedig o ran rheoliadau a wneir o dan Ran 5 (Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol). Rwy'n hyderus y gallai cymal 77 gael ei ddefnyddio yng Nghymru.

**6. A all y Gweinidog roi rhagor o fanylion am y pwerau newydd a ddarperir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Bennod 1 o Ran 3, cymal 96 a chymal 112, a chadarnhau pa effaith y byddai'r pwerau hyn yn ei chael yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru?**

6.1 Bwriad y darpariaethau data cynllunio ym Mhennod 1 o Ran 3 o'r Bil yw gosod safonau data cymeradwy fel bod modd cymharu data a gedwir gan awdurdodau cynllunio perthnasol yn uniongyrchol. Byddai hyn yn galluogi datblygwyr i weithio'n fwy effeithlon ar draws gwahanol awdurdodau ac, yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gymharu data ar draws gwahanol feysydd yr awdurdod. Byddai hefyd yn hwyluso twf a chystadleuaeth yn y

farchnad meddalwedd data cynllunio drwy greu safon gyffredin y byddai cyflenwyr yn gweithio iddo, gan alluogi ymdrin â materion traws-ffiniau yn fwy effeithlon.

6.2 Mae'r mwyafrif helaeth o 'awdurdodau cynllunio perthnasol', fel y'u diffinnir yng nghymal 81 o'r Bil, yn cynnwys cyrff sy'n gweithredu yn Lloegr, neu mewn meysydd heb eu datganoli. Yr unig faes o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yr effeithir arno gan unrhyw reoliadau data cynllunio fydd mewn cysylltiad ag unrhyw Reoliadau Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol a wneir o dan Ran 5 o'r Bil. Fel y cafodd ei ddrafftio yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, yr Ysgrifennydd Gwladol fyddai'n gwneud y cyfryw Reoliadau Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol ("Rheoliadau EOR"), foddy bynnag, mae trafodaethau'n parhau o ran bod gan Weinidogion Cymru bwerau cyfatebol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Byddwn yn sicrhau bod gweithrediad y cymalau hyn sy'n ymwneud â data cynllunio yn cael eu hystyried yn y trafodaethau o ran Rhan 5. Fel y'i drafftwyd yn y Bil fel y cyflwynwyd mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau y maent yn ymdrin â materion o dan adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol. Does dim effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a dim effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

6.3 Mae Cymal 96 (Pleidleisiau Stryd) yn gymal dalfan yr ydym yn rhagweld y bydd darpariaethau sylweddol yn cymryd eu lle yn ystod hynt y Bil a fydd yn berthnasol i Loegr yn unig. Ychydig iawn o wybodaeth mae'r cymal yn ei roi ynghylch beth fyddai'r system yn ei olygu ac nid ydym wedi cael unrhyw wybodaeth bellach gan Lywodraeth y DU am y mater hwn.

6.4 Mae Cymal 114 (Cymal 112 yn flaenorol) (rheoliadau a gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio) yn welliant eglurhaol, sy'n darparu pŵer mynegi i wneud darpariaeth ategol yn hytrach na gorfol dibynnu ar bwerau ymhlyg. Does dim newid sylweddol felly. Mae'r darpariaethau'n effeithio ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gorchmynion o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990. Ond fel y nodwyd does dim newid i swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

**7. A all y Gweinidog esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'w datganiad ym mharagraff 58 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol bod "gan ddau faes, sef data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol, fuddion posibl i Gymru, ond mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn golygu na ellir gwireddu'r buddion hyn." Beth yw'r buddion posibl y cyfeirir atynt? Pam mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn golygu na ellir gwireddu buddion o'r fath?**

7.1 O ran data cynllunio, fel yr eglurir ym mharagraff 6.1 uchod, byddai safonau data cyffredin yn galluogi datblygwyr i weithio'n fwy effeithlon ar draws gwahanol awdurdodau ac, ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gymharu data ar draws gwahanol ardaloedd awdurdod. Byddai hefyd yn hwyluso twf a chystadleuaeth yn y farchnad meddalwedd data cynllunio drwy greu safon gyffredin y byddai cyflenwyr yn gweithio iddo.

7.2 Mae diddymu Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn golygu nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau mwyach mewn cysylltiad ag asesiad amgylcheddol strategol ac asesiad effaith amgylcheddol. Yr unig eithriad i hyn yw adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 y byddai'r Bil hwn yn ei ddiddymu. Felly, ni allwn wella gweithrediad y cyfundrefnau hyn, er enghraift, mewn perthynas â chyfathrebu electronig, na'r mathau o brosiectau a ddylai fod yn destun asesu.

7.3 Nid yw'r drafftio yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ar gyfer y darpariaethau data cynllunio a'r adroddiadau canlyniadau amgylcheddol yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidog Cymru. Felly, ni fyddwn yn gallu ~~Tudalen yng Nghymru~~ i wella sut mae'r

darpariaethau'n gweithio a byddai risg o hyd bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau sy'n effeithio ar Gymru sy'n tanseilio'r dull presennol yn y meysydd hyn, sydd wedi'u teilwra'n benodol i amgylchiadau ac anghenion Cymru.

**8. A all y Gweinidog ddarparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r datganiad ym mharagraff 59 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n dweud "nid yw'r ffordd y mae'r pwnerau ar ddata digidol wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn cyd-fynd â'n dyhead i ddeddfu dros Gymru." Ym mha ffordd y mae'r ffordd y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn cael yr effaith hon? A yw'r cyfeiriad at "ddata digidol" yn gyfeiriad at ddata cynllunio?**

8.1 Mae'r drafftio yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ar gyfer y darpariaethau data cynllunio ym Mhennod 1 o Ran 3 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn perthynas â gofynion data cynllunio ar gyfer adroddiadau canlyniadau amgylcheddol. Yn unol â'n hegwyddorion ar gyfer cydsynio i Filiau'r DU, rwyf o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru gael pwnerau cyfatebol i wneud rheoliadau ynglŷn ag adroddiadau canlyniadau amgylcheddol ar gyfer cynlluniau a phrosiectau datganoledig, a byddai angen pwnerau tebyg mewn perthynas â data cynllunio yn sgil hynny. Nid yw'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn rhoi'r pwnerau hynny i Weinidogion Cymru.

8.2 Dylai'r cyfeiriad at "ddata digidol" fod yn gyfeiriad at "ddata cynllunio" a byddaf yn cywiro hyn yn yr LCM diwygiedig.

**9. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn dod i gasgliad clir o ran a yw'n briodol i bob un o'r cymalau ym Mhennod 1 o Ran 3, cymal 96 neu gymal 112 gael eu cynnwys yn y Bil, ac nid yw ychwaith yn cynnig argymhelliaid clir ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio i'r darpariaethau hyn. A all y Gweinidog gadarnhau'r sefyllfa yn hyn o beth?**

9.1 Rwy'n argymell y dylid atal caniatâd i'r cymalau hynny o Bennod 1 o Ran 3 sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (cymalau 75, 76, 77, 79, 80 ac 81) oherwydd eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu adroddiadau canlyniadau'r amgylchedd a ddarperir ar eu cyfer yn Rhan 5 o'r Bil. Ni allaf gefnogi'r dull presennol yn Rhan 5 oherwydd y risg o reoliadau sy'n effeithio ar Gymru sy'n tanseilio'r dull presennol yn y meysydd hyn, sydd wedi'u teilwra'n benodol i amgylchiadau ac anghenion Cymru.

9.2 Rwyf hefyd yn argymell y dylid atal caniatâd i gymal 96 gan ei fod yn debygol o gyflwyno dull biwrocratiaidd diangen o ymgysylltu â'r cyhoedd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwneud â llunio'r lleoedd y maent yn byw ynddynt. Mae angen gwneud hyn mewn modd strategol a chydlynus, sy'n adlewyrchu'r system dan arweiniad y cynllun yng Nghymru.

9.3 Yn olaf, rwy'n argymell y dylid rhoi caniatâd y Senedd i gymal 114 (cymal 112 cyn hynny) gan fod y ddarpariaeth ond yn ceisio egluro maint y pwnerau cyffredinol i wneud offerynnau statudol, sy'n fater sy'n gyffredin i Gymru a Lloegr. Mae paragraffau 22 a 23 o'r LCM yn esbonio'r gwelliant cyfreithiol technegol hwn. Er ei fod yn bosibl i'r Senedd wneud y newid hwn, mae natur dechnegol mân y newid i wneud y sefyllfa gyfreithiol bresennol yn gliriach, yn golygu yn fy marn fod y budd o effeithio ar y newid drwy'r Bil hwn yn drech na'r rhagdybiaeth polisi yn erbyn gwneud hynny.

9.4 Byddaf yn gwneud hyn yn glir yn yr LCM diwygiedig.

**10. A all y Gweinidog gadarnhau'r cymalau penodol y cyfeirir atynt ym mharagraffau 58 a 59 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol?**

10.1 Mae'r cyfeiriad at ddata cynllunio yn cyfeirio at y cymalau a nodwyd ym mharagraffau 14 i 19 o'r LCM (Cymalau 75, 76, 77, 79, 80 ac 81 y Bil). Mae'r cyfeiriad at faes adroddiadau canlyniadau amgylcheddol yn cyfeirio at y cymalau a nodwyd yn 24 i 35 o'r LCM (cymalau 116 i 130 o'r Bil). Byddaf yn gwneud hyn yn glir yn yr LCM diwygiedig.

11. A all y Gweinidog gadarnhau pa gymalau y cyfeirir atynt fel "y cymalau mewn perthynas â chynllunio" ym mharagraff 64 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol? A yw hyn yn cynnwys cymal 112?

11.1 Roedd y cyfeiriad at y cymalau sy'n ymwneud â chynllunio yn cynnwys y rhai a nodwyd ym mharagraffau 14 i 38 o'r LCM ac yn cynnwys cymal 112. Byddaf yn gwneud hyn yn glir yn yr LCM diwygiedig.

**12. A all y Gweinidog ofyn am gadarnhad gan Lywodraeth y DU yngylch sut y bydd y darpariaethau cynllunio yn gweithio'n ymarferol, i gynnwys darparu dadansoddiad o'r cymalau mewn perthynas â chynllunio ac egluro sut y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar awdurdodau Cymru mewn termau real? A all y Gweinidog gadarnhau pwy, yng Nghymru, sy'n cael ei ystyried yn 'awdurdod cynllunio perthnasol' at ddibenion y Bennod hon?**

12.1 A all y Gweinidog ofyn am gadarnhad gan Lywodraeth y DU yngylch sut y bydd y darpariaethau cynllunio yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys darparu dadansoddiad o'r cymalau mewn perthynas â chynllunio ac egluro sut y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar awdurdodau Cymru mewn termau real? A all y Gweinidog gadarnhau pwy, yng Nghymru, yr ystyrir ei fod yn 'awdurdod cynllunio perthnasol' at ddibenion y Bennod hon?

12.2 Mae'r darpariaethau yn Rhan 5 yn cael eu trafod ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y DU. O'r herwydd, ni allwn gadarnhau pwy, yng Nghymru, y gellid ei ystyried yn 'awdurdod cynllunio perthnasol' at ddibenion y Bennod hon, gan y bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hynny.

12.3 Yn yr un modd, mae'n anodd ar hyn o bryd amlinellu sut y bydd y darpariaethau'n gweithio'n ymarferol. Mae hyn yn ddibynnol ar y math o reoleiddio y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei gyflwyno, trwy welliant wedi'i gyflwyno, ac nid oes gennym unrhyw fanylion ar hyn o bryd.

12.4 Byddaf yn diweddarur Pwyllgor hwn a'r Pwyllgorau craffu eraill fel y bo'n briodol unwaith y bydd gen i fwy o wybodaeth.

**13. A all y Gweinidog gadarnhau pa ddarpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl a pha rai sy'n ymwneud â materion datganoledig, fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 49 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol?**

13.1 Mae'r darpariaethau y gellid eu cynnwys yn y Rheoliadau EOR yn cwmpasu ystod eang o feysydd, o ran diffinio 'cydsyniadau perthnasol' a 'chynlluniau perthnasol'. Mae enghreifftiau o reoliadau presennol yn ymwneud ag asesiadau effaith amgylcheddol sy'n berthnasol yng Nghymru'n unig yn cynnwys Rheoliadau Amaethyddiaeth (e.e., Rheoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017) a chynllunio (e.e., Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017). Rhestir enghreifftiau eraill o'r darpariaethau presennol yng nghymal 130 o'r Bil fel "deddfwriaeth bresennol i ddiogelu'r amgylchedd". Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol i Gymru yn unig hefyd yn cael ei chynnwys.

13.2 Mae'r materion a gedwir yn ôl a allai fod yn berthnasol wrth ystyried y ddarpariaeth y gellid ei gwneud o dan Ran 5 o'r Bil yn cynnwys archeb 184 o Atodlen 7A i Ddeddf

Llywodraeth Cymru 2006 (GOWA) (cynllunio), er y gellid gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion cynllunio eraill a phrosiectau seilwaith sy'n disgyn islaw'r trothwyon ar gyfer prosiectau seilwaith NSIPs o bwys cenedlaethol. Mae enghrefftiau eraill o amheuon perthnasol yn cynnwys y mater a gedwir yn ôl 97 (olew a nwy) a'r mater a gedwir yn ôl 99 (ynni niwclear). Er gwaethaf bodolaeth materion perthnasol a gedwir yn ôl, gellid parhau i wneud darpariaeth sylweddol mewn meysydd datganoledig gan gynnwys cynllunio, trfnidiaeth, dŵr, amaethyddiaeth, draenio tir ac eraill.

**14. Gan gyfeirio at baragraff 58 o'r Bil, a all y Gweinidog gadarnhau manylion y manteision posibl y mae'n eu rhagweld i system well o adroddiadau cynllunio amgylcheddol ac a yw trafodaethau wedi digwydd gyda Llywodraeth y DU gyda'r bwriad o wireddu'r buddion hyn yn y Bil? A all y Gweinidog hefyd gadarnhau beth a olygir gan "adroddiadau canlyniadau cynllunio" ym mharagraff 58?**

14.1 Dylai adroddiadau canlyniadau cynllunio" fod yn gyfeiriad at "adroddiadau canlyniadau amgylcheddol" a byddaf yn cywiro hyn yn yr LCM diwygiedig. Mae trafodaethau wedi eu cynnal rhwng fy Swyddogion a'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU gyda'r bwriad o wireddu'r buddion sy'n cael eu hesbonio yn fy ateb i'ch cwestiwn saith.

**15. A all y Gweinidog egluro sut mae'r darpariaethau presennol yn golygu bod Gweinidogion Cymru wedi colli eu gallu i wneud rheoliadau Cymru mewn perthynas ag adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol?**

15.1 Mae Cymal 130 (2) yn hepgor adran 71A y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref sef pŵer gweithredol presennol Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ystyried effeithiau amgylcheddol tebygol datblygiad arfaethedig.

**16. A all y Gweinidog nodi a roddir cefnogaeth ai peidio i gynnwys y darpariaethau yn Rhan 5 yn y Bil, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.3(iii), ac a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio?**

16.1 Rwy'n argymhell bod caniatâd yn cael ei ddal yn ôl ar gyfer y darpariaethau yn Rhan 5 fel y'u cyflwynwyd am y rhesymau a nodir yn fy ateb i'ch cwestiwn 7. Byddaf yn diweddarur LCM yn unol â hynny.

**17. A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymalau 96 a 187?**

17.1 Does dim trafodaethau wedi digwydd gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chymal 96.

17.2 Mae fy swyddogion wedi bod yn mynd ati'n rhagweithiol ac yn cysylltu'n rheolaidd â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU er mwyn deall bwriadau Llywodraeth y DU ar gyfer Cymal 187. Er hynny, dylai'r Pwyllgor nodi bod y cymal yma bellach wedi'i dynnu o'r mesur gan Lywodraeth y DU.

**18. A yw'r Gweinidog wedi trafod cymalau 80 a 121 o'r Bil â Llywodraeth y DU a cheisio diwygio'r darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU, o leiaf, gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau data cynllunio neu reoliadau adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol sy'n cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru? Beth fu canlyniad y trafodaethau hyn?**

18.1 Mae trafodaethau rhwng swyddogion yn archwilio'r posibilrwydd o bwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau EOR yn gyffredinol ar gyfer cynlluniau datganoledig a phrosiectau o'r man cychwyn y mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn annerbyniol mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Nid yw trafodaeth ar gymalau amgen posibl ar gyfer cymalau 80 ac 123 (121 Tudalen y pecyn 72

cyn hynny) i oresgyn y gwirthwynebiadau hyn wedi digwydd. Rwy'n aros i weld unrhyw gymalau arfaethedig yn eu lle sy'nadlewyrchu cymhwysedd datganoledig Cymru yn well. Oni bai a hyd nes y cynhyrchrif cymalau newydd o'r fath, mae fy argymhelliad yn parhau y dylid atal caniatâd deddfwriaethol i'r darpariaethau ar reoliadau data cynllunio ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol.

**19. A oes gan y Gweinidog unrhyw farn ar gynnwys pwerau Harri VIII yng nghymalau 129 a 191 o'r Bil? A yw'r Gweinidog wedi trafod cymal 129 a/neu gymal 191 gyda Llywodraeth y DU i geisio eu diwygio neu eu dileu? Beth fu canlyniad unrhyw drafodaethau?**

19.1 Mae Cymal 129 yn annerbyniol yn fy marn i, gan ei fod yn rhan o'r darpariaethau adroddiadau canlyniadau amgylcheddol yr wyf wedi rhoi fy marn iddynt uchod (gweler paragraff 9.1). Ni fu trafodaeth weinidogol am y darpariaethau hyn hyd yma. Nawr bod aildrefnu portffolios o fewn Llywodraeth y DU wedi setlo, byddaf yn ceisio cwrdd â'm cymheiriaid ar y cyfle cyntaf.

19.2 Dylid dal cydsyniad yn ôl yn yr un modd mewn perthynas â chymal 191 oherwydd diffyg pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â materion datganoledig.

**20. A all y Gweinidog fynegi unrhyw farn ar oblygiadau ariannol y Bil hwn i Gymru?**

Cymal 1 - 6 (Ymgyrchoedd Ffyniant Bro)

20.1 Effaith y darpariaethau yw gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i bennu, ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni, ymgyrchoedd ffyniant bro i leihau anghyfartaledd daearyddol ar draws y DU. Mae'r gofyniad i adrodd ar gyflawni ymgyrchoedd ffyniant bro, a chraffu seneddol ar gynnydd yn erbyn yr ymgyrchoedd hyn yn gost i Lywodraeth y DU ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar Gymru. Mae effaith y camau gweithredu ffyniant bro a wnaed gan Lywodraeth y DU i gyflawni'r ymgyrchoedd hyn y tu allan i gwmpas y Bil.

Cymalau dalfan:

Cymal 96 (Pleidleisiau stryd) a Chymal 187 (Crwydraeth a chardota)

20.2 Os yw darpariaethau'n ddarpariaethau dalfn nid yw'r cymal yn cynnwys y manylion angenrheidiol i mi nodi a fydd unrhyw oblygiadau ariannol ar Gymru. Byddaf yn diweddar u'r Senedd fel y bo'n briodol unwaith y bydd y darpariaethau sylweddol yn cael eu cyflwyno. Er fel yr amlinellir yn yr ymateb i gwestiwn 17, mae cymal 187 wedi'i dynnu o'r Bil.

Rhan 3 (Cynllunio)

20.3 Bydd gan y newidiadau i'r system gynllunio o dan Ran 3 i gyd gostau ymgynfarwyddo sy'n gysylltiedig â'r newid. Bydd awdurdodau lleol, busnesau (gan gynnwys busnesau bach a chanolig), a'r Trydydd Sector lle maent yn cymryd rhan yn y system yn gweld y gost untr o hwn.

Cymal 75,76,77,79,80,81 (Data cynllunio)

20.4 Bydd y newidiadau i'r ddarpariaeth, prosesu a gofynion data cynllunio yn golygu costau ariannol i awdurdodau lleol Cymru a'r rhai sy'n ymwneud â rhannau penodol o'r system gynllunio yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd ond yn dod i rym yng Nghymru ar ddau faes cyfyngedig. Yn gyntaf, mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gweithredu mewn meysydd heb eu datganoli, er enghraifft ar

gyfer NSIPs. Yn ail, mae'r darpariaethau ar hyn o bryd yn berthnasol o ran swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 5 o'r Bil (Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol).

20.5 Felly, lle sbardunir NSIP, neu Adroddiad Canlyniadau Amgylcheddol byddant yn ddarostyngedig i'r gofynion. Mewn meysydd eraill nid yw'r safonau yn berthnasol. Bydd hyn yn creu system ddeuol bosibl o ddata cynllunio yng Nghymru a fydd yn creu anghysondeb, gan gynyddu costau i ddefnyddwyr y system gynllunio. Felly, ni fyddai'n llawn sylweddoli y buddion a nodwyd yn y Bil drwy bontio i system gynllunio ddigidol gan na fydd yn berthnasol i'r system gyfan yng Nghymru.

Cymal 112 (Rheoliadau a Gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio)

20.6 Mae'r cymal hwn yn ymwneud â diwygiadau cyfreithiol technegol i'r pwerau cyffredinol i wneud offerynnau statudol a gynhwysir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhedol ac Ardalau Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990. Mae'r gwelliant yn welliant cyfreithiol technegol bach gyda'r nod o wneud y sefyllfa gyfreithiol yn glir. Does dim canlyniadau ariannol o ganlyniad i'r newid.

Cymal 116-130 (Adroddiad canlyniadau'r amgylchedd)

20.7 Mae'r darpariaethau yn y Bil ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer un pŵer cyffredinol i wneud darpariaethau mewn perthynas ag adroddiadau canlyniadau amgylcheddol i gyd-fynd â'r ddau gynllun strategol, a chaniatâd prosiect perthnasol. Mae gan y system newydd o adrodd canlyniadau amgylcheddol botensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd drwy symleiddio cydsynio.

Cymal 186 (Adolygiad o lywodraethu ac ati o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS))

20.8 Bydd y cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gomisiynu adolygiadau cyfnodol o RICS a fydd yn rhoi gwybodaeth i'r llywodraeth am lywodraethu a pherfformiad RICS, er mwyn bodloni ei hun bod RICS yn perfformio er budd y cyhoedd. Does dim costau i Gymru.